

Wrth i chi grwydro glan-yr-afon, edrychwch allan am hwyaid sy'n mynd heibio fel mellten! Mae'r Afon Rymni yn gweithredu fel lôn gyflym ar hyn o bryd. Mae'r afon wedi bod yn llifo'n gyflym drwy gydol y gaeaf ers mis Medi, gyda llifogydd o ddŵr yn byrlymu dros y gored oherwydd y glaw di-baid. Mae'r hwyaid yn manteisio ar y llif i nofio fel caiacwyr arbenigol cyn iddyn nhw dynnu'n ôl i'w hoff lan gysgodol i ffwrdd o'r cerrynt.



*Ymennydd yr eithin*

Ac nid dim ond yr hwyaid sy'n manteisio ar y tywydd gwlyb, mae ffwng yn ffynnu yn ystod cyfnodau llaeth. Ddes i o hyd i ffwng melyn golau ysblennydd, ymennydd yr eithin, yn tyfu ar gangen dderw farw yn agos at ardal y noddfa bywyd gwyllt. Gyda haul y gaeaf yn disgleirio y tu ôl iddo, roedd ffwng ymennydd yr eithin yn tywynnu fel be bai'r slwtsh

meddal yn ailwefru yng ngolau'r haul; roedd y ffwng yn edrych yn hollol arallfydol.

Yn ystod y tymor cwsg, mae'n amser i 'dorri gwallt' y perthi. Wrth dorri, rwy'n ceisio gadael ambell i lwyn egroes neu fwyar y gorswigen ar gyfer yr adar a'r llygod i'w helpu trwy'r adegau o galedi. Ers y Nadolig, mae Brych y Coed wedi darparu trac sain ar gyfer fy nheithiau cerdded, gyda'i cherddoriaeth hyfryd a difalio. Yn wahanol i mi, maen nhw'n parhau i ganu wrth i mi ddychwelyd i'r cerbyd wrth i gawod wyntog arall ymddangos. Yn ffodus, disgynnodd y pâr o Frych y Coed i chwilio am fwydod yn y glaswellt byr o flaen y cerbyd. Mae eu hosgo unionsyth a'u sbonc benderfynol yn cyd-fynd yn berffaith â'u perfformiad operatig cryf. Daethon nhw'n agosach gyda phob naid, cyn bod modd gweld ffurf saeth y smotiau brown ar eu brestiau gwyn yn hollol glir.



*Brych coed*

©Neville Davies @ecology-cymru

Wel, mae'n well i mi barhau i dorri gweddill y perthi.

Hwyl fawr am y tro.

*Kerry*

*Gwarchodwr*